# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 10.05.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Evie M. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Dewi Llewelyn, Peter Read

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Alwyn Thomas (Swyddog Gorfodi Trwyddedau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

## 1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – PEKISH, 78, STRYD FAWR, PWLLHELI

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Pekish, 78 Stryd Fawr, Pwllheli:** Mr Fatih Yilmaz a Mrs Mary Yilmaz (Ymgeiswyr)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Jonathan Roberts

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Sion S. Roberts (aelod lleol)

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Gorfodi Trwyddedau ar ran y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Pekish, 78, Stryd Fawr, Pwllheli i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau darpariaeth o fwyd poeth rhwng 23.00 a 02.00 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn gyda'r eiddo'n agored rhwng 10.00 a 02.00 ar y dyddiau hyn. Mae gweddill yr oriau'n aros fel ar y drwydded bresennol.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Nid oedd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru na'r Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau ar y cais. 'Roedd Cyngor Tref Pwllheli'n gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd e-bost gan yr aelod lleol a llythyr gan drigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd mai'r bwriad yw ceisio gwneud mwy o fusnes ar nosweithiau Gwener a Sadwrn yn enwedig yn ystod yr haf, drwy ymestyn yr oriau hyd at 02.00. Ar hyn o bryd mae'r eiddo'n cau am 01.00 ar y nosweithiau hyn a nododd eu bod yn colli llawer o fusnes gan bod llawer o bobl o gwmpas ar ôl 01.00.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol yn 2005 'roedd gan yr heddlu lawer o dystiolaeth yr adeg hynny o ymddygiad gwrth-gymdeithasol a.y. ynglyn â'r eiddo a dyna paham y gwrthwynebwyd y cais hwnnw. Yn dilyn y gwrandawiad ym Medi 2005 fe ganiatawyd y drwydded gyfredol hyd at 01.00 ynghyd ag amodau megis teledu cylch cyfyng a goruchwylwyr ar y drysau. Ers iddynt dderbyn y drwydded yn 2005, ychydig iawn o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn uniongyrchol yn erbyn yr eiddo. Gofynnodd yr ymgeisydd yn Rhagfyr 2010 am farn yr heddlu parthed cyflwyno cais i wyro'r drwydded. Nododd iddo drafod y mater gyda'i gydweithwyr yn lleol ac 'roeddynt o'r farn nad oes tystiolaeth yn erbyn yr eiddo ar hyn o bryd ac felly nid oedd gan yr heddlu wrthwynebiad i ymestyn yr oriau hyd at 02.00 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn yn unig. 'Roedd yr ymgeisydd hefyd yn cytuno i'r amodau ychwanegol a nodwyd yn y llythyr at yr Awdurdod Trwyddedu.

Manteisiodd y gwrthwynebydd oedd yn bresennol, ac sydd hefyd yn aelod o Gyngor Tref Pwllheli, ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Ei fod yn byw gerllaw'r eiddo a nododd ers i'r eiddo gau am 01.00 'roedd y sefyllfa wedi gwella ond cyn hynny 'roedd problemau'n bodoli ar y Stryd Fawr megis ymddygiad gwrth-gymdeithasol a.y. 'Roedd ef a Chyngor Tref Pwllheli'n bryderus y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu os y caniateir ymestyn yr oriau hyd at 02.00.

Wrth grynhoi, hysbysodd yr ymgeisydd ymhellach bod y Clwb Nos sydd gerllaw yn agored tan 02.30. Nododd hefyd y gosodwyd system teledu cylch cyfyng newydd yn ddiweddar ar yr eiddo sy'n tynnu lluniau tu allan yn ogystal.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'Roedd yr aelodau'n gytun nad oes tystiolaeth i wrthwynebu'r cais.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Pekish, 78 Stryd Fawr, Pwllheli fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cyflenwi bwyd poeth dan baragraff L rhwng 23.00 a 02.00 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn gyda gweddill yr oriau i aros fel ar y drwydded bresennol ar y nosweithiau eraill sef rhwng 23.00 a 01.00.**
**b) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd dan baragraff O rhwng 10.00 a 02.00 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn gyda gweddill yr oriau i aros fel ar y drwydded bresennol ar y nosweithiau eraill sef rhwng 10.00 a 01.00.**
**c) Dim mynediad i'r eiddo ar ôl 01.45 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn er mwyn sicrhau na fydd cwsmeriaid yn yr eiddo ar ôl 02.00.**
**ch) Bydd teledu cylch cyfyng wedi ei osod ac yn gweithio'n ddigon da i'r heddlu a'r awdurdod lleol allu monitro tu mewn a thu allan i'r eiddo. Dylid cadw'r cofnodion mewn fformat heb ei olygu am gyfnod o ddim llai na 31 diwrnod ac ar gael ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
**d) Bydd Goruchwylwyr Drysau cofrestredig gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch (ADD) ar ddyletswydd bob nos Wener a nos Sadwrn.**

**dd) Bydd y perchennog yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi os yn berthnasol). Dylid cadw'r gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.20pm